Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Datblygu Gwledig (Rheolau a Phenderfyniadau) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018** |
| **DYDDIAD** | **3 Rhagfyr 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

**Rheoliadau Datblygu Gwledig (Rheolau a Phenderfyniadau) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**

**Y gyfraith sy'n cael ei diwygio**
Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Dirprwyedig canlynol y Comisiwn:

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn Rhif 807/2014;
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn Rhif 808/2014.

Maent hefyd yn diwygio penderfyniadau gweithredu canlynol yr UE:

- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn C(2015) 855;
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn C(2016) 4147;
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn C(2017) 4413;
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn C(2017) 6493;
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn C(2018) 1166;
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn C(2015) 3488;
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn C(2017) 4598;
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn C(2015) 6018;
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn C(2017) 9754;
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn C(2017) 570;
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn C(2017) 5498;
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn C(2017) 8620;
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn C(2015) 3489;
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn C(2016) 3620;
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn C(2017) 1429;
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn C(2017) 6954;
- Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn C(2018) 1185.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae amaethyddiaeth yn fater datganoledig.

Ni chaiff unrhyw swyddogaethau deddfwriaethol eu trosglwyddo gan yr offeryn hwn. Os bydd angen i swyddogaethau o'r fath gael eu trosglwyddo bydd offeryn ar wahân yn ymdrin â hynny.

Mae'r pwerau gweinyddol a gaiff eu harfer gan y Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â datblygu gwledig yn cael eu trosglwyddo i'r awdurdod perthnasol (Gweinidogion Cymru) yn ddilyffethair.

**Diben y diwygiadau**
Mae effaith yr Offerynnau Statudol hyn yn gyfyngedig o ran galluogi Rheoliadau'r UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol os na fydd unrhyw gytundeb adeg ymadael â'r UE. Gwneir hyn er mwyn galluogi'r rhaglenni presennol yn y DU a gyllidir ar hyn o bryd gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig i barhau i weithredu yn yr un modd am weddill cyfnod rhaglen 2014-2020.

Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-rural-development-rules-and-decisions-amendment-eu-exit-regulations-2018

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**
Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.